# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y RHAGLEN GRAFFU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE, DYDD LLUN, 10 EBRILL 2017 AM 4.30 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | E W Fitzgerald | F M Gordon |
| T J Hennegan | C A Holley | P R Hood-Williams |
| J W Jones | | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Hazel Morris | Cynullydd y Panel Ymchwilio Craffu Pa mor Barod yw Plant i Ddechrau'r Ysgol |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorwyr: U C Clay, S E Crouch, N J Davies, E J King a/ac G J Tanner
Aelodau Cyfetholedig: D Anderson-Thomas

### 170 DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 171 GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

### 172 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2017 fel cofnod cywir.

### 173 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 174 ADRODDIAD YR YMCHWILIAD CRAFFU TERFYNOL: PA MOR BAROD YW PLANT I DDECHRAU'R YSGOL.

Cyflwynodd y Cynghorydd Hazel Morris, y Cynullydd, yr adroddiad terfynol ynghylch y gwaith a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Panel Ymchwilio Pa mor Barod yw Plant i Ddechrau'r Ysgol. Canolbwyntiodd yr ymchwiliad ar 'Sut gellir gwella pa mor barod yw plant i ddechrau'r ysgol yn Abertawe?' Amlygwyd y prif bwyntiau canlynol: -

- Nid oedd fawr o gonsensws o ran yr hyn y mae 'pa mor barod yw plant i ddechrau'r ysgol' yn ei olygu.
- Mae sawl menter ragorol mewn ardaloedd targed diffiniedig, megis Dechrau'n Deg, sydd wedi cael effaith fawr ar ba mor barod yw plant i ddechrau'r ysgol.
- Mae yna blant a theuluoedd y mae angen gwasanaethau arnynt, megis Dechrau'n Deg, ond maent yn byw y tu allan i'r ardaloedd targed diffiniedig;
- Amlygodd ymchwil y byddai buddsoddiad yn y blynyddoedd cynnar yn arwain at yr angen i wario llai ar wasanaethau yn hwyrach mewn bywyd.
- Yr angen i gefnogi ac ehangu mentrau blynyddoedd cynnar yn barhaus;
- Un prif fater a amlygwyd oedd a yw ysgolion yn 'barod i dderbyn plant' a bydd angen gosod mwy o heriau mewn ysgolion fel eu bod yn 'ysgolion sy'n barod i dderbyn plant';
- Pwysigrwydd cadw'r Blynyddoedd Cynnar yn uchel ar yr agenda.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch y gallu i ddefnyddio Grantiau Amddifadedd Disgyblion ar draws y clystyrau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynullydd, aelodau'r panel a'r Swyddog Craffu am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD** cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet am benderfyniad.

## 175 ADRODDIADAU CYNNYDD Y PANEL CRAFFU PERFFORMIAD.

Darparodd y Cadeirydd adroddiad cynnydd ar Banel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Amlygodd y canlynol: -

- Ers y diweddariad diweddaraf i'r pwyllgor ym mis Tachwedd, cynhaliwyd pedwar cyfarfod panel
- Trafodwyd blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Darparodd aelodau'r panel eu sylwadau ar ddrafft yr Asesiad Lles fel pwyllgor statudol. Roedd nifer o sylwadau roedd y panel am iddynt gael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad.
- Cynhaliwyd nifer o sesiynau holi ac ateb gydag aelodau Grŵp Craidd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys y cyngor, Bwrdd Iechyd PABM, Cyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu De Cymru a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe.
- Trefnwyd cyfarfod olaf y panel, y flwyddyn ddinesig hon, ar gyfer 12 Ebrill 2017 am sesiwn holi ac ateb gyda chynrychiolwyr o Wasanaeth Tân ach Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

- Roedd y panel yn ysgrifennu at Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda barn, materion ac argymhellion yn dilyn y sesiynau holi ac ateb gydag aelodau Grŵp Craidd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 176 LLYTHYRAU CRAFFU.

Adroddodd y cadeirydd am gofnod llythyrau'r Tîm Craffu. Amlygodd y canlynol: -

- Yr amser a gymerir i dderbyn ymateb i rai llythyrau.
- Canfyddiadau'r Gweithgor Craffu Tai Amlfeddiannaeth
- Amlygodd lythyr a ysgrifennwyd gan Weithgor Craffu Cynhwysiad Digidol brif fater o ran yr iaith a ddefnyddir mewn cynhwysiad digidol. Cytunodd â'r Gweithgor fod angen i'r cyngor 'sicrhau bod gan bobl y gallu i gyfathrebu drwy sianeli nad ydynt yn ddigidol lle y bo angen, ac ni ddylent fod yn 'addysgu' pobl, nac yn dweud wrth bobl yr hyn sy'n rhaid iddynt ei wneud, ond yn hytrach, fod angen iddynt weithio gyda phobl a chynnig opsiynau.'

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

## 177 ADOLYGIAD BLYNYDDOL Y RHAGLEN WAITH CRAFFU 2016/17

Cyflwynodd y cadeirydd adolygiad o'r Rhaglen Waith Blynyddol ar gyfer 2016/17. Nododd hefyd ei bod wedi mynd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol Craffu 2015/16. Adroddodd fod y Pwyllgor Archwilio wedi cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r gwaith a wnaed.

Amlygodd y Cydlynydd Craffu fod yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd drwy gydol y flwyddyn yn ogystal ag ychydig o ddata perfformiad a chanlyniadau'r arolwg craffu blynyddol. Gan mai dyma oedd y cyfarfod craffu olaf ar gyfer y flwyddyn ddinesig, nododd ei fod yn amser delfrydol i fyfyrio ar y profiad craffu wrth ystyried y cwestiynau canlynol: -

- Beth sydd wedi gweithio'n arbennig o dda?
- Beth nad oedd wedi gweithio cystal?
- A oedd y rhaglen waith craffu wedi canolbwyntio ar y pethau cywir?
- Beth fyddai'n help i wneud craffu yn well?

Cafwyd trafodaeth wedi hyn a oedd yn ymwneud â'r cwestiynau a ofynnwyd a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Mae craffu ar adolygiadau comisiynu wedi bod yn gam ymlaen cadarnhaol iawn, ond gellir gwella hyn drwy gael mwy o amser i graffu ar adroddiadau pwysig y cabinet.
- Cymeradwywyd y Tîm Craffu am eu gwaith, eu cyngor a'u cefnogaeth.

- Yr angen i sicrhau bod gwaith craffu'r dyfodol yn canolbwyntio ar bynciau strategol i gael yr effaith fwyaf, a threulio llai o amser ar bynciau penodol iawn a llai diddorol.
- Y berthynas â'r Cabinet ac aelodau'r Cabinet o ran adroddiadau ymchwilio ac ymatebion i'r argymhellion. Roedd peth pryder ynglŷn ag a yw'r adroddiadau a'r argymhellion, y mae llawer o amser wedi'i fuddsoddi ynddynt, wedi'u deall yn llawn ac yn cael ystyriaeth deg.
- Yr angen am fwy o gynghorwyr i fod yn rhan o graffu.

Diolchodd y Cadeirydd y Tîm Craffu am ei waith arbennig, yn ogystal â'r holl gynghorwyr a oedd wedi ymwneud â chraffu.

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad a'r sylwadau.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.00 pm

**CADEIRYDD**